Office for Nuclear Regulation

Swyddfa dros Reoli Niwclear

Cyfnod Cadw Cofnodion Magnox Cyf.

Cynnig i dynnu'n ôl cymeradwyaeth y cyfnod cadw cofnodion

Adroddiad Asesu Prosiect ONR-DFW-PAR-15-012
Adolygiad 0
16 Chwefror 2016

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015
Os dymunwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright fam fanylion.
Cyhoeddwyd 03/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynnig i dynnu'n ôl cymeradwyaeth y cyfnod cadw cofnodion

Cais am Ganiatâd

Mae Magnox Cyfyngedig, y trwyddedai, wedi gofyn i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) dynnu'n ôl cymeradwyaeth y cyfnod cadw cofnodion generig. Ar hyn o bryd mae'r gymeradwyaeth hon mewn grym yn Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa.

Cefndir

Mae Amod Trwydded (LC) 6 yn mynnu bod y trwyddedai'n gwneud cofnodion digonol i arddangos cydymffurfiad ag unrhyw un o'r amodau a atodir i'r drwydded safle niwclear. Mae (LC) 6 (2) yn mynnu bod y fath gofnodion yn cael eu cadw am 30 mlynedd neu am y fath gyfnod arall y gallai ONR ei gymeradwyo.

Fe wnaeth Magnox Electric PLC (MxL erbyn hyn) ddiffinio Atodlen Gadw Cofnodion (RRS) cyffredin roedd yn ystyried ei bod yn addas ar gyfer safleoedd gweithredol sy'n cynhyrchu pŵer. Fe wnaeth yr RRS hwn nodi'r cofnodion y dylid eu cadw gan safleoedd i arddangos cydymffurfiad ag LC's a hefyd fe wnaeth nodi cyfnod cadw cofnodion o lai na 30 mlynedd ar gyfer rhai cofnodion. Fe wnaeth Magnox Electric PLC ofyn i'r Weithrediaeth (ONR erbyn hyn) gymeradwyo'r RRS hwn ar gyfer ei holl safleoedd. Cymeradwywyd yr RRS hwn ar gyfer deg safle adweithydd Magnox. Mae hyn yn golygu na all yr RRS gael ei ddiwygio heb Gymeradwyaeth newydd neu dynnu'n ôl y Gymeradwyaeth gyfredol.

Ers i'r RRS cyffredin hwn gael ei gymeradwyo, mae'r holl safleoedd hyn wedi peidio â chynhyrchu ac wedi cychwyn datgomisiynu. Yn ystod y cyfnod gweithredol, fe wnaeth pob safle gadw cofnodion yn unol â'r RRS. Nawr bod mwyafrif y safleoedd wedi datlenwi'n gynyddol ac wedi cychwyn y cyfnod datgomisiynu, mae MxL yn meddu ar gofnodion sy'n perthyn i stocrestr ymbelydrol sydd wedi'i symud i ffwrdd o'r safle'n barhaol (megis tanwydd wedi'i dreulio) ac offer sydd wedi'u datgomisiynu a'u symud i ffwrdd.

Fe wnaeth perchnogaeth ar safleoedd adweithydd Magnox a'r asedau cysylltiedig, gan gynnwys cofnodion, drosglwyddo i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) yn 2004. Mae'r NDA yn creu archif niwclear cenedlaethol i ddarparu man cadw hirdymor ar gyfer cofnodion; yn y pen draw bydd hwn yn cynnwys cofnodion MxL. Fodd bynnag, mae capasiti cadw'r archif hwn yn fwy na maint y cofnodion a ddelir ar hyn o bryd gan yr holl drwyddedeion a gynhwysir yn yr ystad NDA.

Erbyn hyn mae ar MxL angen adolygu ei drefniadau i ymgorffori proses adolygu i nodi'r cofnodion hynny sy'n ofynnol ar gyfer datgomisiynu a chlirio's safle'n derfynol a'r cofnodion hynny y gellir cael gwared arnynt. Er mwyn gweithredu'r trefniad arfaethedig hwn, bydd angen i MxL allu newid ei RRS o bryd i'w gilydd. I alluogi i'r RRS gael ei adolygu'n gyfnodol, mae MxL wedi gofyn i ONR dynnu'n ôl cymeradwyaeth y cyfnod cadw cofnodion generig.

Gwath asesu ac arolygu a wnaed gan ONR tra'n ystyried y cais hwn

Rwyf wedi asesu trefniadau arfaethedig MxL ar gyfer rheoli cofnodion. Y newid mwyaf arwyddocaol sy'n cael ei wneud yn y trefniadau arfaethedig hyn yw cynnwys trefniadau ar gyfer adolygu cofnodion a chael gwared arnynt. Mae MxL yn bwriadu galw Pwyllgor Cofnodion Cwmni er mwyn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth am brosesau'r cwmni ar gyfer rheoli cofnodion ac i sicrhau cydymffurfiad ag amodau trwydded safle.

Rwyf yn fodlon bod Magnox Cyf. wedi nodi cyfarwyddwr i oruchwylio'r broses o reoli cofnodion a bod y Pwyllgor Cofnodion Cwmni'n cynnwys personau ag arbenigedd ddigonol i wneud dyfarniadau ynghylch cael gwared ar gofnodion.

Cefais fod y trefniadau arfaethedig yn cydymffurfio â chanllawiau ONR ac y bydd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn aros yn ddigyfnewid.

Materion yn codi o waith ONR

Nid oes unrhyw faterion yn codi o'm gwaith.

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystyriaeth ONR o gais MxL i ddiwygio ei drefniadau a wnaed o dan LC6(1) a 6(2) yn Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa.

Rwyf yn fodlon bod y trefniadau arfaethedig yn trafod y disgwyliadau a gyflwynir yng nghanllawiau arolygu ac asesu ONR yn ddigonol.

Felly rwyf yn ystyried bod y trefniadau hyn yn diwallu gofynion LC6(1) ac LC6(2) a rwyf yn argymell bod ONR yn tynnu'n ôl y cymeradwyaethau o'r cyfnod cadw cofnodion generig.

Argymhellion

Rwyf yn argymell bod yr Arolygydd Goruchwylio'n:

a. Llofnodi'r Adroddiad Asesu Prosiect hwn er mwyn cadarnhau cefnogaeth am y dadleuon technegol a rheoleiddiol ONR sy'n cyfiawnhau cyhoeddi Offer Trwyddedu Magnox Cyfyngedig ar gyfer tynnu'n ôl Cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol o dan Amod Trwydded 6(2) i safleoedd adweithydd Magnox.

b. Llofnodi'r Adroddiad Asesu Prosiect hwn er mwyn cymeradwyo iddo gael ei ryddhau i'w gyhoeddi, wedi'i olygu lle mae'n briodol.

Rwyf yn argymell bod Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear yn llofnodi'r Offer Trwyddedu sydd wedi'u paratoi a fydd yn Tynnu'n ôl Cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol o dan Amod Trwydded 6(2) yn safleoedd adweithydd Magnox.

RHESTR O FYRFODDAU

CRC	Pwyllgor Cofnodion Cwmni
IAO	Perchennog Asedau Gwybodaeth
IGO	Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth
LC	Amod Trwydded
M&O	Rheolaeth a Gweithrediadau
MxL	Magnox Cyf.
NDA	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
ONR	Swyddfa dros Reoli Niwclear
RRS	Atodlen Gadw Cofnodion
TAG	Cannlaw Asesu Technegol (ONR)
TIG	Canllaw Arolygu Technegol (TIG)

TABL CYNNWYS

1 CAIS AM GANIATÂD 7
2 CEFNDIR ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
3 GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
4 MATERION YN CODI O WAITH ONR ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
5 CASGLIADAU ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
6 ARGYMHELLION ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
7 CYFEIRIADAU 11

1 CAIS AM GANIATÂD

1. Mae Magnox Cyfyngedig, y trwyddedai, wedi gofyn i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) dynnu'n ôl cymeradwyaeth y cyfnod cadw cofnodion generig [Cyf. 1]. Ar hyn o bryd mae'r gymeradwyaeth hon mewn grym yn Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa.

2 CEFNDIR

2. Mae Amod Trwydded (LC) 6 yn mynnu bod y trwyddedai'n gwneud cofnodion digonol i arddangos cydymffurfiad ag unrhyw un o'r amodau a atodir i'r drwydded safle niwclear. Mae LC6(2) yn mynnu bod y fath gofnodion yn cael eu cadw am 30 mlynedd neu am y fath gyfnod arall y gallai ONR ei gymeradwyo

3. Fe wnaeth Magnox Electric PLC (MxL erbyn hyn) ddiffinio Atodlen Gadw Cofnodion (RRS) cyffredin roedd yn ystyried ei bod yn addas ar gyfer safleoedd gweithredol sy'n cynhyrchu pŵer. Fe wnaeth yr RRS hwn nodi'r cofnodion y dylid eu cadw gan safleoedd i arddangos cydymffurfiad ag LC's a hefyd fe wnaeth nodi cyfnod cadw cofnodion o lai na 30 mlynedd ar gyfer rhai cofnodion [Cyf. 2]. Fe wnaeth Magnox Electric PLC ofyn i'r Weithrediaeth (ONR erbyn hyn) gymeradwyo'r RRS hwn ar gyfer ei holl safleoedd [Cyf. 3]. Yn dilyn asesiad [Cyf, 4], fe wnaeth y Weithrediaeth gymeradwyo'r RRS ar gyfer deg safle adweithydd Magnox [Cyf. 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14]. Mae hyn yn golygu na all yr RRS gael ei ddiwygio heb Gymeradwyaeth newydd neu dynnu'n ôl y Gymeradwyaeth gyfredol.

4. Ers i'r RRS cyffredin hwn gael ei gymeradwyo, mae'r holl safleoedd hyn wedi peidio â chynhyrchu ac wedi cychwyn datgomisiynu. Yn ystod y cyfnod gweithredol, fe wnaeth pob safle gadw cofnodion yn unol â'r RRS. Nawr bod mwyafrif y safleoedd wedi datlenwi'n gynyddol ac wedi cychwyn y cyfnod datgomisiynu, mae MxL yn meddu ar gofnodion sy'n perthyn i stocrestr ymbelydrol sydd wedi'i symud i ffwrdd o'r safle'n barhaol (megis tanwydd wedi'i dreulio) ac offer sydd wedi'u datgomisiynu a'u symud i ffwrdd.

5. Fe wnaeth perchnogaeth ar safleoedd adweithydd Magnox a'r asedau cysylltiedig, gan gynnwys cofnodion, drosglwyddo i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) yn 2004. Mae'r NDA yn creu archif niwclear cenedlaethol i ddarparu man cadw hirdymor ar gyfer cofnodion a deunydd archif arall o safleoedd niwclear sifil yn y DU. Yn y pen draw disgwylir y bydd cofnodion MxL yn cael eu trosglwyddo i'r archif hwn. Fodd bynnag, mae capasiti cadw'r archif hwn yn fwy na maint y cofnodion a ddelir ar hyn o bryd gan yr holl drwyddedeion a gynhwysir yn yr ystad NDA.

6. Er mwyn rheoli ei gofnodion, erbyn hyn mae ar MxL angen adolygu ei drefniadau i ymgorffori proses adolygu i nodi'r cofnodion hynny sydd eu hangen ar gyfer datgomisiynu a chlirio'r safle'n derfynol a'r cofnodion hynny y gellir cael gwared arnynt. Mae MxL yn bwriadu gweithredu trefniadau newydd a fydd yn gyffredin ar y cychwyn i ddeg safle adweithydd Magnox a'r ganolfan gorfforaethol. Mae'n bwriadu ymestyn y trefniadau hyn i safleoedd Harwell ac Winfrith erbyn Mawrth 2016. Er mwyn gweithredu'r trefniad arfaethedig hwn, bydd angen i MxL allu newid ei RRS o bryd i'w gilydd.

7. Er mwyn galluogi'r RRS i gael ei adolygu o bryd i'w gilydd, mae ar MxL angen gwneud cais i ONR am gymeradwyaeth newydd ar gyfer ei drefniadau adolygedig neu wneud cais i'r gymeradwyaeth gyfredol gael ei thynnu'n ôl. Er mwyn bod yn gyson â 'i ddull rheoleiddio trwyddedeion eraill, mae ONR wedi cynghori MxL y dylid tynnu'n ôl y cymeradwyaethau cyfredol.

3 GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN

8. Defnyddiwyd y Canllaw Asesu Technegol Diogelwch Niwclear (TAG) a'r Canllawiau Arolygu Techegol Diogelwch Niwclear (TIG) ONR dilynol i ystyried trefniadau arfaethedig MxL ar gyfer rheoli cofnodion.

- NS-TAST-GD-033, Rheolaeth Cofnodion y Trwyddedai [Cyf.15];
- NS-INSP-GD-006 LC 6 Dogfennau, cofnodion, awdurdodiadau a thystysgrifau LC 6 [Cyf. 16];
- NS-INSP-GD-025 LC25 Cofnodion Gweithredol [Cyf. 17].

3.1 TREFNIADAU MAGNOX AR GYFER RHEOLI COFNODION

9. Rwyf wedi cynnal ymyriad [Cyf. 18] i arolygu trefniadau arfaethedig MxL [Cyf. 19] ar gyfer rheoli cofnodion er mwyn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau ONR.

10. Mae trefniadau arfaethedig MxL yn golygu y bydd aelod o'r bwrdd yn gweithredu fel Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth (IGO) a bydd yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am Lywodraethu Gwybodaeth. Mae'r IGO yn gyfrifol am:

- Sicrhau llywodraethu cyffredinol y systemau a phrosesau rheoli cofnodion ac am gydymffurfio ag amodau rheoleiddio a chwsmeriaid ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.

11. Hefyd mae trefniadau arfaethedig MxL [Cyf. 19] yn nodi'r rôl o Berchennog Asedau Gwybodaeth (IAO). Ym mhob safle yr IAO fydd y Cyffarwyddwr Cau neu eu henwebai. Mae'r IAO yn gyfrifol am:

- Nodi cofnodion i'w cynnwys yn yr atodlenni;
- Gosod cyfnod cadw'r cofnod neu amodau i'w diwallu cyn cael gwared arnynt;
- Sicrhau bod y cofnod yn gyflawn, wedi'i lofnodi gan y dilyswyr priodol a mewn fformat sy'n briodol ar gyfer archifo;
- Rheoli, cadw, ac adolygu eu cofnodion dynodedig yn unol â'r safon hon a'r Atodlen Gofnodion.

12. Y newid mwyaf sylweddol i drefniadau arfaethedig MxL yw cynnwys trefniadau ar gyfer adolygu cofnodion a chael gwared arnynt. Mae MxL yn bwriadu galw Pwyllgor Cofnodion Cwmni (CRC) er mwyn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth am brosesau'r cwmni ar gyfer rheoli cofnodion ac i sicrhau cydymffurfiad ag amodau trwydded safle. Rwyf yn nodi mai pwrpas y CRC fydd:

- Nodi cofnodion sydd eu hangen i ddiwallu gofynion y Drwydded Safle;
- Cynnal atodlen o gofnodion ar gyfer pob rhan o'r cwmni er mwyn diwallu amodau'r Drwydded Safle;
- Ceisio cymeradwyaeth o amrywiadau i'r atodlenni gan y rheoleiddiwr lle bo angen;
- Sancsiynu newidiadau i'r atodlenni pan yw amgylchiadau'n newid ac yn galw am amrywiadau;
- Penderfynu ceisiadau gan IAOs am gael gwared ar gofnodion darfodedig neu ddiangen;
- Ceisio adolygiad o warediadau gan y rheoleiddiwr lle ystyrir bod angen;
- Sancsiynu cael gwared ar gofnodion darfodedig neu ddiangen.

13. Caiff y CRC ei gadeirio gan yr IGO a bydd yn cynnwys staff uwch yn cynrychioli:

- Awdurdodiad Cynllun;
- Achos Diogelwch;
- Rheoli Gofal a Chynhaliaeth;
- Ansawdd a Sicrwydd;
- Cyfreithiol.

14. Rhaid i IAO's wneud cais i'r CRC am gymeradwyaeth cyn cael gwared ar unrhyw gofnodion. Rwyf yn fodlon bod MxL wedi nodi cyfarwyddwr i oruchwylio'r broses o reoli cofnodion a bod y CRC yn cynnwys personau ag arbenigedd ddigonol i wneud dyfarniadau ynghylch cael gwared ar gofnodion..

15. Yn ystod fy ymyriad [Cyf. 18], cefais fod y trefniadau arfaethedig yn addas ar y cyfan ac wedi'u halinio â chanllawiau ONR. Bydd trefniadau MxL ar gyfer cadw cofnodion yn aros yn ddigyfnewid. Fe wneuthum nodi nifer o fanylion o fewn y trefniadau hyn y dylid eu gwella neu eu cadarnhau. Derbyniwyd y canfyddiadau hyn gan MxL ac wedi hynny rwyf wedi cadarnhau bod diwygiadau priodol wedi'u gwneud i'r trefniadau arfaethedig.

3.2 ATODLEN ARFAETHEDIG AR GYFER CADW COFNODION

16. Mae trefniadau arfaethedig MxL yn cynnwys RRS adolygedig [Cyf. 20]. Mae'r RRS adolygedig yn cynnwys cofnodion mae MxL yn ystyried bod arno eu hangen er mwyn diwallu ei ddyletswyddau cyfreithiol a rhwymedigaethau busnes. Mae'r RRS arfaethedig hwn yn nodi'r cofnodion hynny mae MxL yn ystyried bod arno eu hangen er mwyn arddangos cydymffurfiad ag unrhyw un o'r amodau a atodir i'r drwydded safle niwclear. Nid yw MxL yn cynnig unrhyw newid uniongyrchol i'r atodlen gofnodion mae wedi nodi bod arno ei hangen i arddangos cydymffurfiad ag amodau trwydded safle niwclear na chyfnodau cadw'r cofnodion hynny. Caiff unrhyw newidiadau i'r RRS hwn yn y dyfodol eu goruchwylio gan y CRC.

3.3 ALINIO ATODLENNI CADW COFNODION MAGNOX AC NDA

17. Cyn y bydd yr Archif Niwclear Cenedlaethol yn dod yn weithredol, mae'r NDA wedi cyhoeddi polisi ar gyfer rheoli'r holl wybodaeth ynghylch yr ystad NDA. [Cyf. 17]. Mae'r polisi hwn yn nodi RRS [Cyf. 22] mae NDA angen i'w gwmnïau trwydded safle ei fabwysiadu. Mae'r RRS NDA hwn wedi'i seilio ar ganllawiau a gyhoeddir gan reoleiddwyr, deddfwriaeth genedlaethol ac o ofynion rheoleiddiol a busnes ystad yr NDA. Er bod ONR yn ystyried bod yr RRS hwn yn fodel i'w ddefnyddio gan drwyddedeion safleoedd NDA, mae wedi sefydlu prosiect ymyrryd i ddylanwadu ar y Rhaglen Lywodraethu Gwybodaeth NDA [Cyf. 23]. Rwyf wedi fy hysbysu bod NDA wedi ymgynghori ag MxL ynghylch cynnwys yr RRS NDA a bod MxL wedi gallu dylanwadu ar yr RRS NDA.

18. Rwyf wedi cymharu'r rhan o'r RRS NDA sy'n nodi'r cofnodion gofynnol i arddangos cydymffurfiad ag unrhyw un o'r amodau a atodir i'r drwydded safle niwclear, â'r RRS a gynhwysir yn nhrefniadau arfaethedig MxL. Rwyf wedi canfod bod cydberthyniad da rhwng yr RRS's MxL ac NDA.

3.4 AGWEDDAU CYFREITHIOL

19. Rwyf wedi drafftio Offer Trwyddedu (LIs) [Cyf. 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33] mewn ymateb i gais y trwyddedai am Dynnu'n ôl Cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol o dan Amod Trwydded 6(2). Mae'r LIs hyn yn un o'r fformatau safonol a roddir o fewn gweithdrefnau ONR ac felly nid oes angen iddynt gael eu hadolygu gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth.

4 MATERION YN CODI O WAITH ONR

20. Nid oes unrhyw faterion yn codi o'm gwaith.

5 CASGLIADAU

21. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystyriaeth ONR o gais MxL i ddiwygio ei drefniadau a wnaed o dan LC6(1) a 6(2) yn Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa.

22. Rwyf yn fodlon bod y trefniadau arfaethedig yn trafod y disgwyliadau a gyflwynir yng nghanllawiau arolygu ac asesu ONR yn ddigonol.

23. Felly rwyf yn ystyried bod y trefniadau hyn yn diwallu gofynion LC6(1) ac LC6(2) a rwyf yn argymell bod ONR yn tynnu'n ôl y cymeradwyaethau o'r cyfnod cadw cofnodion generig.

6 ARGYMHELLION

24. Rwyf yn argymell bod yr Arolygydd Goruchwylio'n:

a. Llofnodi'r Adroddiad Asesu Prosiect hwn er mwyn cadarnhau cefnogaeth am y dadleuon technegol a rheoleiddiol ONR sy'n cyfiawnhau cyhoeddi Offer Trwyddedu Magnox Cyfyngedig ar gyfer tynnu'n ôl Cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol o dan Amod Trwydded 6(2) i safleoedd adweithydd Magnox.

b. Llofnodi'r Adroddiad Asesu Prosiect hwn er mwyn cymeradwyo iddo gael ei ryddhau i'w gyhoeddi, wedi'i olygu lle mae'n briodol

25. Rwyf yn argymell bod Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear yn llofnodi'r Offer Trwyddedu sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod, a fydd yn Tynnu'n ôl Cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol o dan Amod Trwydded 6(2).

Rhif Offeryn Trwyddedu	Rhif Safle Niwclear Trwyddedig.
510	92 Safle Berkeley
511	93 Safle Bradwell
535	Sc.15 Gorsaf Bŵer Niwclear Chapelcross
511	94 Safle Dungeness A
507	95A Safle Hinkley Point A
521	Sc.16 Hunterston
551	57A Oldbury
512	96 Safle Sizewell A
528	81 Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
564	58a Wylfa

7 CYFEIRIADAU

1. Llythyr MxL MXL 32250/R, dyddiedig 10 Medi 2015. Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (Fel y'i Diwygiwyd) Amod Trwydded 6 – Dogfennau, Cofnodion, Awdurdodiadau a Thystysgrifau. Tynnu'n ôl Cymeradwyaethau o Gyfnodau Cadw Cofnodion. (TRIM 2015/359284).

2. Dogfen MxL, Atodiad A – Atodlen Generig Cofnodion Trwydded Safle, Model MCP 5/1, Rhifyn 6. (TRIM 2015/376919).

3. Llythyr MxL BTC 30248R, dyddiedig 13 Medi 2005. Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (Fel y'i Diwygiwyd). Magnox Electric PLC. Cais am Gymeradwyaeth o Gyfnodau Cadw Cofnodion O Dan Amod Trwydded 6(2) - Dogfennau, Cofnodion, Awdurdodiadau a Thystysgrifau. (TRIM 2015/144970).

4. Adroddiad Asesu Prosiect ONR 144/05, Cymeradwyaeth o Gyfnodau Cadw Cofnodion. (TRIM 2015/482374).

5. Trwydded Safle Rhif: 80, Rhif Offeryn Trwyddedu: 506, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. Trosglwyddwyd i Drwydded Safle Rhif: 92. (TRIM 2015/482386).

6. Trwydded Safle Rhif: 53, Rhif Offeryn Trwyddedu: 502, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. Trosglwyddwyd i Drwydded Safle Rhif: 93. (TRIM 2015/482386).

7. Trwydded Safle Rhif: Sc. 15, Rhif Offeryn Trwyddedu: 510, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 23 Ionawr 2006. (TRIM 2015/482386).

8. Trwydded Safle Rhif: 55, Rhif Offeryn Trwyddedu: 505, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. Trosglwyddwyd i Drwydded Safle Rhif: 94. (TRIM 2015/482386).

9. Trwydded Safle Rhif: 52A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 502, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. Trosglwyddwyd i Drwydded Safle Rhif: 95A. (TRIM 2015/482386

10. Trwydded Safle Rhif: Sc16, Rhif Offeryn Trwyddedu: 503, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. (TRIM 2015/482386).

11. Trwydded Safle Rhif: 57A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 508, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. (TRIM 2015/482386).

12. Trwydded Safle Rhif: 51, Rhif Offeryn Trwyddedu: 506, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. Trosglwyddwyd i Drwydded Safle Rhif: 96. (TRIM 2015/482386).

13. Trwydded Safle Rhif: 81, Rhif Offeryn Trwyddedu: 504, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. (TRIM 2015/482386).

14. Trwydded Safle Rhif: 58A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 510, Rhoddwyd Cymeradwyaeth O Dan Amod 6(2) ar 19 Hydref 2005. (TRIM 2015/482386).

15. ONR Canllaw HOW2 – Rheolaeth o Gofnodion gan y Trwyddedai - NS-TAST-GD-033 Adolygiad 4. Mawrth 2013. http://www.onr.org.uk/operational/assessment/index.htm

16. ONR Canllaw HOW2 - LC 6 Dogfennau, Cofnodion, Awdurdodiadau a Thystysgrifau – NS-INSP-GD-006 adolygiad 0. Hydref 2015. http://www.onr.org.uk/operational/tech_insp_guides/index.htm

17. ONR Canllaw HOW2 – LC25 Cofnodion Gweithredol - NS-INSP-GD-025 adolygiad 2. Chwefror 2013. http://www.onr.org.uk/operational/tech_insp_guides/index.htm

18. Adroddiad Ymyriad ONR ONR-DFW-IR-15-045, “Arolygiad Cydymffurfiad Corfforaethol Magnox Cyf. – LC6”. 15 Mehefin 2015. (TRIM 2015/51213)

19. Dogfen Magnox - S-419 – Creu, Cadw a Rheoli Cofnodion Rhifyn 3 Drafft. (TRIM 2015/144970).

20. Dogfen Magnox – F620 Atodlen cofnod Safle Rhifyn 2 Drafft. (TRIM 2015/144975)

21. Rheoli Gwybodaeth NDA: Gofynion Rhif Dogfen IMP06 Ad. 1. Ionawr 2015. http://www.nda.gov.uk/publication/imp06-managing-nda-information-requirements/

22. IMG02: Atodlen Gadw Cofnodion NDA Fersiwn 1 - Ebrill 2015. http://www.nda.gov.uk/publication/img02-nda-records-retention-schedule/

23. Tasglen ONR NLR014, “Rhaglen Lywodraethu Gwybodaeth NDA (IGP)”. Rhagfyr 2015. (TRIM 2015/479254).

24. Trwydded Safle Rhif: 92, Berkeley - Rhif Offeryn Trwyddedu: 510, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61575).

25. Trwydded Safle Rhif: 93, Bradwell - Rhif Offeryn Trwyddedu: 511, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61576).

26. Trwydded Safle Rhif: Sc.15, Chapelcross - Rhif Offeryn Trwyddedu: No 535, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61582).

27. Trwydded Safle Rhif: 94, Dungeness A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 511, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016 (TRIM 2016/61584).

28. Trwydded Safle Rhif: 95A, Hinkley A, Licence Instrument No 507, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61592).

29. Trwydded Safle Rhif: Sc.16, Hunterston A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 521, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61594).

30. Trwydded Safle Rhif: 57A, Oldbury, Rhif Offeryn Trwyddedu: 551, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61596).

31. Trwydded Safle Rhif: 96, Sizewell A, Rhif Offeryn Trwyddedu: 512, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61603).

32. Trwydded Safle Rhif: 81, Trawsfynydd, Rhif Offeryn Trwyddedu: 528, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61633).

33. Trwydded Safle Rhif: 58A, Wylfa - Rhif Offeryn Trwyddedu: 564, Tynnu Cytundeb LC6(2) Yn Ôl, Chwefror 2016, (TRIM 2016/61643).